# CYMDEITHAS HANES DOLWYDDELAN 2024

7.00yh yn yr Ystafell Gyfrifiaduron, y tu ôl i Ysgol Dolwyddelan.

**Rhaglen yr Hydref . . .**

**Dydd Llun 2 Medi**
Michael Blackburn – Y Chwyldro Diwydiannol yng ngogledd Cymru

**Dydd Llun 7 Hydref**
Bob Morris - Nye Bevan

**Dydd Iau 4 Tachwedd**
Rhys Mwyn – Archeoleg Owain Glyndŵr

---



Dadorchuddio’r bwrdd gwybodaeth ym Mhont Rufeinig ar Fehefin 12fed, gan George Studor Jnr, mab un o’r milwyr fu’n hyfforddi yma ym mis Mai 1944 a Dafydd Ellis, Cadeirydd Cymdeithas Hanes Dolwyddelan.

Llythyr gan George yn dilyn ei ymweliad i Ddolwyddelan...

Diolch yn FAWR i bobl Dolwyddelan, y Gymdeithas Hanes ac yn arbennig Shaun Hewitt am yr holl gefnogaeth i roi’r dref hon a’r man wrth Orsaf y Bont Rufeinig ‘ar y map’ i mi a’r nifer fawr o deuluoedd a ffrindiau'r 83fed Adran Troedfilwyr y cyn-filwyr nôl yn America. Roedd ein cyn-filwr hynaf Al Klugiewicz, sydd newydd ddathlu ei ben-blwydd yn 108 oed, yn ddiweddar yn gallu siarad am y llifogydd ddigwyddodd tra’r oedd ei uned, y 331ain Catrawd, yno.

Bu imi gyflawni sawl nod a chael gwybod lle yn union oedd pencadlys cwmni fy nhad. Helpodd Shaun imi ddod o hyd i lawer o lefydd oedd fy nhad wedi ysgrifennu amdanyn nhw yn ei lythyrau fel yr hen dŷ ffilm (Y